Nol Ar Y Stryd (Fersiwn Newydd)

Chwe' mis sy' ers i mi ymadel
Chwe awr sy' ers bennu y botel
Sawl un fydd wedi fy anghofio
Sawl ffrind fydd ar gael heno.

Ar ôl dagre poeth y ffarwelio
Yn fy mreuddwydion bu hi'n hwylio
A fydd hi yno 'nol ei harfer
A'r wen yn addo'r hen ymarfer

Trwy ddrws crwn y llong daw y gole
Shanghai yn codi'n fore
Fel breuddwyd hudol o'r môr melyn
Deffro'r ddraig troi'r byd yn felyn

'Nol ar y stryd
'Nol jyst mewn pryd
Cyn fod y byd
Yn anghofio fy mhryd.

© Geraint Griffiths 2003